

# arolwg caris 2016

data o 1998 i 2015

Mae'r adroddiad byr hwn yn cynnwys gwybodaeth am gofrestr CARIS tan ddiwedd 2015, sydd bellach yn cwmpasu manylion o 31,123 o achosion. Gellir gweld gwybodaeth fanylach a thablau data ar:

[www.wales.nhs.uk/caris](http://www.wales.nhs.uk/caris)

## Cefndir CARIS

Sefydlwyd CARIS ym 1998 â'r nod o asesu patrymau anomaleddu yng Nghymru, gan gynnwys clystyrau dichonol a'r ffactorau a oedd yn eu hachosi. Gwyddys er enghraifft fod gan Gymru yr ail gyfradd uchaf o namau'r tiwb niwrol yn Ewrop; mae gwaith yn parhau ar ymchwil i'r hyn sy'n achosi hyn ac i weld a oes potensial pellach o ran eu hatal. Mae gwybodaeth CARIS yn cyfrannu at lunio'r gwasanaethau iechyd ehangach, gan gynnwys gwasanaethau sgrinio. Ni fyddai'n bosibl i CARIS weithredu oni bai am waith caled ac ewyllys da'r holl bobl sy'n anfon i ni'r wybodaeth i greu cronfa ddata gynhwysfawr ar anomaleddu cynhenid.



## Map 1 Cyfradd gryswth achosion CARIS, 1998 – 2015

**Cyfradd achosion CARIS i bob 10,000 o enedigaethau, 1998-2015**  
Awdurdod Lleol

616 i 664	[2]
568 i <616	[1]
520 i <568	[3]
472 i <520	[9]
424 i <472	[7]

**Cyfradd Cymru = 516**

Cynhyrwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CARIS (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a PHB (ONS) © Hawffraint y Goron a hawliau'r gronfa ddata 2016. Yr Arolwg Ordans 1000044810

## Patrymau anomaleddu

- Adroddwyd am 31,123 o achosion o anomaleddu cynhenid i CARIS rhwng 1998 a 2015. Bu cyfanswm o 602,972 o enedigaethau (byw a marw) yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae hyn yn rhoi cyfradd gryswth<sup>1</sup> o 5.2%, sydd heb newid ers arolwg y llynedd.
- Ganwyd 26,816 yn fyw (86.2%), y bu i 96.9% ohonynt orosi tan eu penblwydd cyntaf (babanod a anwyd rhwng 1998 a 2014). Gwelwyd bod llai yn goroesi mewn achosion lle y cafwyd anomaleddu tra chymhleth.
- Roedd gan fwyaf (59.9%) o'r achosion un anomaledd yn unig, ac roedd gan 11.6% anhwylder cromosomaidd sylfaenol. Mae cyfradd yr anhwylderau cromosomaidd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Gall hyn fod yn gysylltiedig â chynnydd yn oedran y fam ac argaeledd sgrinio genetig.
- Roedd 40% o'r rhai yr effeithwyd arnynt yn fenywaidd, roedd 58% yn wrywaidd, a disgrifiwyd 14 yn rhyngrywiol. Roedd statws rhywiol y lleill yn anhysbys neu heb ei gofnodi, a hynny yn aml oherwydd i'r beichiogrwydd ddod i ben trwy derfyniad bwriadol neu gamesgoriad.
- Y pum grŵp mwyaf cyffredin o anomaleddu mewn trefn ddisgynnol oedd rhai cylchrediad y gwaed, rhai aelodau'r corff, rhai cyhyrol-yserbydol, rhai troethol a rhai'r system dreulio. Erys hyn heb newid ers arolwg y llynedd.

Ar draws Cymru, fel y dengys Map 1, gwelir amrywiad yn y cyfraddau. Ond gallai hyn ddeillio o amrywiadau yn yr arferion adrodd.

<sup>1</sup> Y cyfradd gryswth yw cyfanswm yr achosion o anomaledd (pa un a ddaeth y beichiogrwydd i ben trwy enedigaeth fyw, genedigaeth farw, terfyniad bwriadol ai ynteu trwy gamesgoriad), wedi'i rannu â chyfanswm y genedigaethau byw a genedigaethau marw.

## Map 2 Canran o achosion CARIS sy'n goroesi tan un flwydd oed, 1998 – 2015

Awdurdod Lleol

97.5 i 98.0	[6]
97.0 i <97.5	[4]
96.5 i <97.0	[4]
96.0 i <96.5	[6]
95.5 i <96.0	[2]

**% Cymru = 96.9**

Cynhyrwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CARIS (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a PHB (ONS) © Hawffraint y Goron a hawliau'r gronfa ddata 2016. Yr Arolwg Ordans 1000044810

## Ansawdd data

Mae CARIS yn rhan o rydwaith EUROCAT. Mae Cymru'n perfformio'n gyson dda o ran ansawdd data o'i chymharu â chofrestrau eraill. I gael rhagor o fanylion ewch at: [www.eurocat-network.eu/aboutus/datacollection/dataquality/dataqualityindicators](http://www.eurocat-network.eu/aboutus/datacollection/dataquality/dataqualityindicators)



**GIG Cymru NHS Wales** | Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Public Health Wales

# arolwg caris 2016

data o 1998 i 2015


Y ddau faes y mae'r arolwg yn canolbwyntio arnynt eleni yw heintiau yn ystod beichiogrwydd ac anhwylderau'r gwaed.

## Heintiau yn ystod beichiogrwydd

Mae heintiau cynhenid wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar wrth i'r firws Zika ymddangos yn Ne América, y credir bod cysylltiad rhyngddo a microseffaledd<sup>2</sup>. Nid oes achosion wedi'u hadrodd yng Nghymru, ond mae system oruchwylio ar waith. Mae yna nifer o heintiau sy'n gallu arwain at ganlyniadau difrifol i'r plentyn yn y groth, os bydd menyw yn eu dal cyn neu yn ystod y beichiogrwydd. Maent yn cynnwys sytomegalofirws (CMV), herpes, sifflis, tocsoplasmosis, parofirws, brech yr ieir a'r frech Almaenig (rwbela). Mae'r cymhlethodau a achosir gan yr heintiau hyn yn amrywio o ran eu math a'u henbydrwydd, ac mae oedran y ffetws yn y groth ar yr adeg y delir yr heint yn effeithio arnynt.

Mae nifer yr achosion o anomaledau cynhenid sy'n deillio o haint<sup>3</sup> yn ystod beichiogrwydd yr hysbysir CARIS amdanynt yn fach – sef cyfanswm o 133 o achosion o anomaledau cynhenid cysylltiedig â haint yn y fam yn ystod beichiogrwydd rhwng 1998 a 2015. Mae hyn yn rhoi cyfartaledd o saith achos y flwyddyn, a chyfradd o 2.2 i bob 10,000 o enedigaethau. O'r 133 o achosion hyn, ganwyd 73% yn fyw. Gan fod y nifer mor isel nid oes dadansoddiad fesul haint penodol ar gael. Yr haint yr hysbysir CARIS amdano amlaf yw CMV, gyda pharofirws a thocsoplasmosis ar ei sodlau.

Mae menywod yn cael sgriniadau cynenedigaethol ar gyfer rhai heintiau megis HIV, Hepatitis B a sifflis. Rhoddwyd y gorau i sgrinio ar gyfer rwbela ym mis Hydref 2016 yn sgil cyfarwyddyd gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. Nid oes achosion wedi cael eu darganfod



Llun: Parofirws

yng Nghymru ers i CARIS gael ei sefydlu. Nid oes achosion o HIV yn cael ei drosglwyddo i fabanod newydd anedig wedi cael eu hadrodd i CARIS chwaith. Mae'r cyfarwyddyd i weithwyr proffesiynol iechyd sy'n pryderu ynghylch heintiau a brechau yn ystod beichiogrwydd wedi cael ei ddiweddarau, a gellir ei ddarllen yma: <http://www.antenatalscreening.wales.nhs.uk/professional/document/283802>

<sup>2</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/84861>

<sup>3</sup> Heintiau Cynhenid (A50\*, P35\* ac eithrio P35.3 & P37\* ac eithrio P37.5)

## Anhwylderau'r gwaed

Mae nifer fawr o anhwylderau cynhenid y gwaed, ond mae rhai ohonynt yn fwy cyffredin nag eraill. Mae anhwylderau'r gwaed yn cynnwys rhai sy'n effeithio ar gelloedd gwaed cochion a gwynion, platennau, mêr yr esgyrn, a'r ansoddion yn y gwaed sy'n chwarae rhan mewn ceulo neu waedu.

**Achosion ag anhwylderau'r gwaed a'r organau sy'n ffurfio gwaed, cyfraddau i bob 10,000 o enedigaethau byw a marw, a'r ganran o achosion a anwyd yn fyw, Cymru 1998-2015**

Anomaledd	Cyfanswm achosion	Cyfartaledd achosion pob blwyddyn	Cyfradd	% o achosion a anwyd yn fyw
Sferosytosis Etifeddol	68	4	1.1	100.0
Hemoffilia A	39	2	0.6	100.0
Clefyd Von-Willebrand	34	2	0.6	100.0
Anemia Crymangell	27	2	0.4	96.3
Thalasemia	25	1	0.4	96.0

Cynhyrwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data CARIS a PHB (ONS)

Dangosir gwybodaeth yn y tabl am y pump anhwylder a adroddir amlaf i CARIS, ond er mai dyma'r rhai mwyaf cyffredin mae'r niferoedd yn dal i fod yn isel. Mae rhai anhwylderau'n cael eu tan-adrodd gan eu bod yn gallu bod yn ysgafn gydag ychydig o symptomau, neu am nad yw rhai ohonynt (e.e. hemocromatosis) yn dod yn amlwg tan yn nes ymlaen ym mywyd y claf ac nid ydynt felly yn cael eu hadrodd bob amser i CARIS. Mae'r prawf smotyn gwaed a gynhelir ar bob baban newydd anedig yn cynnwys prawf ar gyfer clefyd y crymangelloedd. Bydd rhagor o wybodaeth am anhwylderau'r gwaed ar gael ar wefan CARIS.



## Cysylltwch â ni

CARIS, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Lefel 3 Bloc Adain y Gorllewin, Ysbyty Singleton, Lôn Sgeti, Abertawe SA2 8QA  
Ffôn: 01792 285241 (WHTN 01883 6122) Ffacs: 01792 285242 (WHTN 01883 6123)  
Epost: david.tucker2@wales.nhs.uk Caris.SafehavenMailbox@wales.nhs.uk



GIG Cymru NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales